Fersiwn 29/1/2019

# Consortiwm ERW

# Cadarnhau gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol

# Ionawr 2019

Dyddiad awduro: Ionawr 2019

Awdur yr Adroddiad: Geraint Rees

Dyddiad y cyfarfod i ystyried yr adroddiad: Cyd-bwyllgor, Chwefror 2019

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Diben yr adroddiad | |
| 2.0 | Cefndir | |
| 3.0 | Nodau ERW | |
| 4.0 | Y Bartneriaeth Leol/Ranbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion mewn ffordd effeithiol: y model cyflwyno | |
| 5.0 | Strwythur Staffio | |
| 6.0 | Model Atebolrwydd a Llywodraethu | |
| 7.0 | Model Ariannol | |

## 1.0 Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw cynnig rhesymeg glir a strwythur arfaethedig ar gyfer partneriaeth ranbarthol wedi'i diwygio i gyflwyno gwaith gwella ysgolion ar draws ERW. Trafodwyd yn helaeth gydag arweinwyr adrannau addysg y 6 awdurdod ac ymgysylltwyd yn eang â'r gymuned penaethiaid ar draws y rhanbarth. Bwriedir i ERW ar ei newydd wedd ddarparu eglurder am rolau rhwng y consortiwm rhanbarthol, yr awdurdodau lleol, cydweithio ar draws 2 awdurdod lleol neu fwy ac ysgolion eu hunain.

Mae'n rhaid i bartneriaeth ERW aeddfed gyflwyno model effeithiol o system sy'n hunanwella - sef system lle mae pob rhan ohoni'n deall beth sy'n cynrychioli rhagoriaeth, yn gallu adnabod ei chryfderau a'i gwendidau ei hun yn effeithiol, ac yn gallu rhannu ei chryfderau'n hyderus gan chwilio heb ofn am yr atebion i'r gwendidau. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn berthnasol i ysgolion, i grwpiau o ysgolion ac i awdurdodau lleol.

Dylid tybio bod penderfyniadau a wneir ar ôl ystyried yr adroddiad hwn yn gamau pwysig tuag at greu system o'r fath - gyda ffocws clir ar hunanwella drwy gydweithio ym meysydd cynllunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth ynghyd â dwysáu gwaith rhwng awdurdodau i ategu'r nodau hyn a darparu cymorth a her fwy cyson i ysgolion ar y daith honno.

Ni ddylid gweld gweithrediad argymhellion y ddogfen hon fel diwedd y daith rhanbarthol. Dylid disgwyl adolygiad blynyddol o bwrpasedd y corff rhanbarthol. Ar ben hyn, argymhellir gwerthusiad llawn allanol bob 5 mlynedd o bwrpasedd y sefyldiad, er mwyn i'r cyd-bwyllgor allu ystyried camau nesaf i'r rhanbarth.

## 2.0 Cefndir

Mae diddordeb rhyngwladol sylweddol yn yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru wrth iddi fynd ati i ddiwygio'i system addysg ysgolion yn ei chyfanrwydd. Nod Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer addysg yng Nghymru yw datblygu:

- Cwricwlwm newydd ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru
- Proffesiwn addysg o safon uchel
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella

Mae angen anorfod am wasanaeth rhanbarthol effeithiol. Mae graddfa cenhadaeth ein cenedl yn mynnu lefelau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen o ran paratoi'r cwricwlwm newydd, dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a datblygiad arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr y presennol a'r dyfodol. Mae'r bont sydd ei hangen rhwng ein prifysgolion a'n hysgolion yn hanfodol, er mwyn sicrhau bod partneriaeth ym maes addysg yng Nghymru sydd wedi'i cholli'n cael ei hailadeiladu ar fyrder. Mae pob athro ac athrawes ar draws y rhanbarth yn haeddu cael cymorth wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac mae gan arweinwyr ysgol (gan gynnwys llywodraethwyr) hawl i wybod y caiff eu hysgolion gymorth a her sy'n gyson ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau tebyg, a hynny gan ddefnyddio'r dulliau gorau posibl. Ar hyn o bryd, nid yw ERW mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith diwygio, ond bydd ERW ar ei newydd wedd yn gallu cyflawni'r rhwymedigaethau hyn a chwarae rhan llawnach wrth ddatblygu addysg ar draws Gorllewin a Chanolbarth Cymru. Gellir cyflawni hyn mewn modd effeithiol ac effeithlon tra'n rhyddhau mwy o arian i ysgolion.

Mae'r dull gweithredu rhanbarthol sydd ar waith ar draws ERW yn doredig ar hyn o bryd. Mae angen ail-greu perthnasau, diffinio cwmpas a diben ar gyfer y sefydliad, diffinio strwythurau staffio canolog clir, ac adnabod modelau ariannol, atebolrwydd a llywodraethu cydlynol. Mae angen rhoi strwythurau a diwylliannau gweithio yn eu lle i ategu'r gwaith o gyflwyno Cenhadaeth ein Cenedl yn ein holl ysgolion neu bydd dysgwyr ac athrawon yn rhanbarth ERW o dan anfantais wrth iddynt weithio i gyflwyno cwricwlwm diwygiedig.

Yn gonfensiynol mae gwasanaethau gwella ysgolion yn darparu swyddogaethau megis:

- Y rôl o fonitro a chasglu hysbysrwydd er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth a her briodol i ysgolion sydd wedyn yn atebol am eu perfformiad eu hunain.
- Cefnogi creu capasiti ymysg staff ysgol drwy hwyluso dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth effeithiol.
- Creu gwybodaeth sefydliadol ar draws y system i ategu cydweithrediadau ar draws ysgolion eu hunain, Awdurdodau Lleol, Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn atgyfnerthu ysgolion.
- Brocera cymorth i'w ddarparu i unigolion neu sefydliadau pan fydd eu perfformiad yn peri pryder.

O'n sefyllfa bresennol, dylem gynllunio system wahanol. Yn y system honno, bydd ysgolion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad ei gilydd, a dylid darparu'r adnoddau a'r cymorth iddynt er mwyn iddynt gyflawni hynny. Ar draws Cymru (ac o fewn ERW) mae enghreifftiau rhagorol lle mae ysgolion yn cefnogi ei gilydd i ddatrys anawsterau, gan rannu capasiti ac arfer effeithiol er budd dysgwyr y tu hwnt i glwydi eu hysgolion eu hunain. Dylai ERW ar ei newydd wedd wreiddio uchelgais o'r fath yn ei genhadaeth, yng nghyd-destun partneriaeth gliriach rhwng y lleol a'r rhanbarthol.

## 3.0 Nodau ERW

Partneriaeth, cydweithredu, ymddiriedaeth ac atebolrwydd a rennir fydd nodweddion allweddol system addysg Cymru'r dyfodol. Bydd athrawon yn methu os mai ceisio datblygu'r cwricwlwm newydd ar wahân a wnânt. Mae'n rhaid i ni hyrwyddo unedau cydweithredol sy'n gallu rhannu o fewn ac ar draws unedau o'r fath ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn modelu ymddygiad o'r fath.

Er mwyn cyflawni'r nodau hynny awgrymir bod ERW yn gosod nodau uchelgeisiol iddo ef ei hun fel a ganlyn:

***Partneriaeth ranbarthol yw ERW sydd wedi'i chreu i hyrwyddo rhagoriaeth ym mhob ysgol drwy system hunanwella. Cyflawnir hyn drwy gynllunio cydweithredol ar gyfer y cwricwlwm newydd a darparu dysgu proffesiynol a chyfleoedd arweinyddiaeth sy'n gallu datblygu pob un fel unigolion, dysgwyr, dinasyddion a chyfranwyr.***

Mae'n rhaid i bartneriaeth ERW ymdrechu i gael ei chydnabod fel partneriaeth o ragoriaeth, a arweinir gan arbenigwyr lefel uchel yn rhanbarthol, sy'n gallu darparu arweinyddiaeth a chymorth ar gyfer grwpiau lleol, grwpiau hwb a grwpiau isranbarthol.

O ran cyflwyno, y prif gonglfeini fydd gweld ysgolion yn gweithio mewn clystyrau, dulliau cydlynu effeithiol i awdurdodau lleol a Hybiau a sicrwydd ansawdd ar draws y rhanbarth.

Dylai staff ERW allu gweithio ar draws y grwpiau isranbarthol a chyda sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill a Sefydliadau Addysg Uwch gan ddod â'r dysgu rhyngwladol gorau i'n rhanbarth er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ein hathrawon a'n harweinwyr drwy ddarparu arweinyddiaeth effeithiol i ddysgu proffesiynol. Bydd yn bwysig sicrhau cysondeb mynediad i ddysgu proffesiynol o safon uchel a chyfleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, yn ogystal â chysondeb o ran cymorth a her i ysgolion a chymorth effeithiol i ysgolion sy'n destun pryder.

**Beth a olygir wrth system hunanwella?**

System hunanwella yw system lle mae gan arweinwyr ac athrawon ysgol y sgiliau, y capasiti a'r crebwyll i ddysgu'n barhaus a gwella'u harfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial a'i fod yn barod am fywyd mewn byd cynyddol gymhleth.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae ysgolion wedi dod yn well am rannu eu harfer gorau er budd pob dysgwr. Yn ein system hunanwella mae angen i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad ddod yn ymwybodol o'i gryfderau a'i feysydd gwella ei hun, a chyda'r wybodaeth hon dylai chwilio am gymorth er gwella'u hunain a chynnig cymorth i eraill wella.

Dylai ERW ddisgwyl yn rhesymol bod pob rhan o'r system addysg yn dod yn gyfranogwyr yn y model hwn, fel bod cryfderau'n cael eu rhannu ar draws y system, a bod modd mynd i'r afael â meysydd i'w gwella drwy ymgysylltiad a chymorth cymheiriaid. Drwy gyflawni hyn byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr proffesiynol addysg yn gallu ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol i godi safonau a sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cyflawni ei botensial.

## 4.0 MAE RHAN 4 YN DDRAFFT CYNNAR SYDD YN DESTUN GWAITH PELLACH AR Y CYD RHWNG STAFF ERW, Y 6 AWDURDOD AC ARWEINWYR YSGOLION

### Gweithio Rhanbarthol: Gwaith cydweithredol

***Nodau arfaethedig ERW fydd: Partneriaeth ranbarthol yw ERW sydd wedi'i chreu i hyrwyddo rhagoriaeth ym mhob ysgol drwy system hunanwella. Cyflawnir hyn drwy gynllunio cydweithredol ar gyfer y cwricwlwm newydd a darparu dysgu proffesiynol a chyfleoedd arweinyddiaeth sy'n gallu datblygu pob un fel unigolion, dysgwyr, dinasyddion a chyfranwyr.***

Er mwyn gweireddu’r nodau hyn, mae’n hanfodol fod dealltwriaeth eglur o gyfrifoldebau a gwaith pob rhan o’r bartneriaeth.  Mae’r tabl isod sydd yn seiliedig ar drafodaeth gychwynnol am bwrpas y bartheriaeth rhanbarthol yn cynnig crynodeb o rolau ysgolion, yr Awdurdodau Lleol a’r rhanbarth, o ran gwireddu Cenhadaeth ein Cenedl. Bydd angen cadw cyd-bwysedd rhwng yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd a chyfrifoldeb statudol yr Awdurdodau Lleol, a disgwyliadau dydd i ddydd ysgolion.

Yn y pendraw, mae system hunanwella yn golygu fod angen i ysgolion a grwpiau o ysgolion feddu ar yr adnoddau a’r capasiti i weithredu transwidiad y cwricwlwm.

| **TABL DRAFFT – I'W DDATBLYGU'N BELLACH AR Y CYD AG YMARFERWYR RHANBARTHOL, AWDURDODAU LLEOL AC YSGOLION**<br><br>**Cynllunio i gyflwyno cwricwlwm newydd, darparu dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth ysbrydoledig** | | |
|---|---|---|
| Bydd y Rhanbarth yn: | Bydd yr Awdurdodau Lleol yn: | Bydd Ysgolion yn: |
| • Mynd ati i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, y rhanbarthau eraill, sefydliadau addysg uwch a'r awdurdodau lleol i ddatblygu a chyfuno gwybodaeth am y daith ddiwygio genedlaethol, ac yna'n cyfleu hynny'n eglur i bob partner. | • Sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol wrthi'n cymryd rhan mewn diwygio addysgol, a hynny trwy ymgysylltu pendant ag ysgolion, awdurdodau eraill a'r rhanbarth. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm yn cael ei osod mewn cyd-destun lleol a chenedlaethol gan alluogi ysgolion i ddeall gofynion addysg bellach, addysg uwch a'r byd gwaith. | • Ymgysylltu ag ysgolion eraill a phartneriaid allweddol i alluogi eu staff i fod yn gyfranogwyr gweithgar mewn diwygio addysgol. Byddant hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm er mwyn cyflawni pedwar diben diwygio'r cwricwlwm. |
| • Bod yn onest ac yn agored wrth | • Cefnogi diwylliant o hunanarfarnu | • Bod yn onest ac yn agored yn eu |

| | | |
|---|---|---|
| hunanarfarnu fel bod yna eglurder ynghylch cryfderau a gwendidau. | gonest ar gyfer gwelliant, gan ddefnyddio gwybodaeth leol i gynorthwyo ysgolion i ddod yn bartneriaid llawn mewn system hunanwella. | hunanarfarniadau, ac yn gweithredu ar y canfyddiadau hynny, er mwyn sicrhau gwelliant a bod yn glir o ran lle y gallant ddarparu cymorth a'i gael. |
| • Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu'r cwricwlwm, gan gyfathrebu'n glir y naratif sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cerrig milltir y cwricwlwm newydd. | • Sicrhau bod staff awdurdodau lleol a staff rhanbarthol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu cerrig milltir mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Bydd hefyd yn comisiynu cymorth i ysgolion yn ôl y gofyn ac mewn cytundeb ag uwch-arweinwyr ysgolion. | • Ymrwymo i gyflawni cerrig milltir wrth iddynt baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd ac yn ymrwymo i waith clwstwr er mwyn sicrhau parhad a dilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm. |
| • Sicrhau bod yna gynnig amrywiol a hygyrch i bob ymarferydd yn y rhanbarth i ddatblygu ei sgiliau addysgu ac arweinyddiaeth. Bydd hyn yn cefnogi gwelliant parhaus mewn ysgolion ynghyd â'r gallu i arwain, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion y system hunanwella | • Datblygu gallu yn eu sefydliadau eu hunain er mwyn hwyluso gwelliant parhaus, modelu egwyddorion y system hunanwella a sefydliadau dysgu. | • Ymrwymo i ddysgu proffesiynol gan ddefnyddio'r Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol a'r Model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu i wella ansawdd y ddarpariaeth ac i ddatblygu gallu at y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| yn ogystal â datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. | | |
| • Ymgysylltu â'r sector Addysg Uwch ac eraill er mwyn hwyluso'r gwaith o gynhyrchu a rhannu ymchwil addysg i lywio arfer a chynhyrchu dulliau sy'n galluogi athrawon a gweithwyr proffesiynol gwella ysgolion i fod yn bartneriaid mewn ymchwil. | • Sicrhau bod ymchwil berthnasol yn llywio dulliau gwella ysgolion yn lleol ac yn rhanbarthol, ac yn sicrhau bod ymarferwyr gwella ysgolion lleol yn cael yr holl wybodaeth am ymchwil. | • Ymrwymo i ddatblygu gallu'r ysgol fel un sy'n defnyddio ymchwil ac fel partner mewn ymchwil. |
| • Hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd a chyfleoedd dysgu ac arwain proffesiynol fel eu bod yn ymgorffori'r egwyddor o ysgolion cynhwysol sydd wedi ymrwymo i les pob dysgwr. | • Datblygu ac yn cydlynu gwasanaethau lleol i gefnogi ysgolion gyda'u huchelgais i fod yn gefnogwyr cynhwysol ac effeithiol o les dysgwyr. | • Ymrwymo i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a chyfleoedd dysgu proffesiynol, fel eu bod yn ymgorffori egwyddorion ysgolion cynhwysol sydd wedi ymrwymo i les pob dysgwr ac aelod o staff. |
| • Hyrwyddo ac yn creu strwythurau ar gyfer ymgysylltu effeithiol â chyfoedion a rhannu arfer effeithiol drwyddi draw. | • Hyrwyddo egwyddorion ymgysylltu â chyfoedion ac yn mynd ati i annog y gwaith o rannu arfer effeithiol drwyddi draw. Bydd hefyd yn ymrwymo i broses adolygu cyfoedion CCAC/CLlLC. | • Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â chyfoedion ac yn hwyluso'r gwaith o rannu arfer effeithiol drwyddi draw. |

| | | |
|---|---|---|
| • Darparu cymorth penodol er mwyn datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ogystal â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a hynny mewn clystyrau ac ar gyfer ysgolion unigol. Bydd yn gwneud hyn trwy drafodaeth ag awdurdodau lleol ac uwch-arweinwyr ysgolion. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o asesu/cymedroli disgyblion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. | • Cefnogi'r agenda i ddiwygio'r cwricwlwm ac yn dwyn y consortiwm a'r ysgolion i gyfrif am ei gweithredu. Bydd hefyd yn adrodd i aelodau etholedig ar y gwaith o ddiwygio a gweithredu'r cwricwlwm, ac yn hwyluso'r broses o graffu ar gynnydd disgyblion. | Adrodd i gyrff llywodraethu ar y gwaith o ddiwygio a gweithredu'r cwricwlwm, ac yn hwyluso'r broses o graffu ar gynnydd disgyblion. |
| • Hwyluso'r broses o nodi a rhannu arfer effeithiol. | • Hwyluso'r broses o nodi a rhannu arfer effeithiol. | • Hwyluso'r broses o nodi a rhannu arfer effeithiol. |

**Gweithgaredd Craidd a chomisiynu ychwanegol**

Mae prif waith ERW o ran paratoi at y cwricwlwm newydd, adeiladu capasiti proffesiynol a datblygu arweinyddion ysgolion ar draws y rhanbarth yn mynd i fynd rhagddo yn ddyddiol o fewn partneriaeth gydlynnus y chwech awdurdod. Dylai'r cynllun busnes amlinellu sut y cyflawnir hyn fel partneriaeth er mwyn diogelu cydraddoldeb mynediad a chefnogaeth ar draws y rhanbarth.

Bydd cyfnodau hefyd pan gall y bartneriaeth ddarparu gwasanaethau penodol ychwanegol i ddiwallu anghenion ysgolion neu awdurdodau. Tra bydd ERW yn cynnal staff canolog cyfyngedig, bydd natur y system hunan-wella ac ymrwymiad pawb i'r bartneriaeth yn gallu sicrhau fod staff y corff rhanbarthol, yr awdurdodau lleol ac, yn fwyaf allweddol, staff ysgolion ar gael i'w comisiynu yn y dyfodol i gynnig gwasanaethau ychwanegol. Gellir hefyd caffael gwasanaethau gan bartneriaid eraill, pan fydd angen.

Awgrymir y dylai'r model ariannol blynyddol gynnwys swm wedi ei gadw a fydd ar gael i weithredu'n ychwanegol at waith arferol y rhanbarth, yn cynnig diogelwch i'r ALlau fod modd ymateb yn amserol i anghenion annisgwyl. Dylai tim canolog ERW a'r cyfarwyddwyr trwy eu hymwneud proffesiynol adnabod anghenion sy'n codi, ac o fewn

yr adnoddau sydd ar gael awgrymu datrysiadau fel bo’r angen. Dylai’r ALlau gytuno yn ystod y cylch cynllunio busnes beth fydd yr adnodd wrth gefn, a dylid sicrhau cytundeb ffurfiol am y broses o ofyn am gefnogaeth a rhyddhau’r adnoddau i’w sicrhau.

**Cysylltiadau ag Addysg Uwch**

Mae 3 Sefydliad Addysg Uwch yn y rhanbarth, ac mae gan bob un ohonynt ddiddordeb brwd ym maes addysg ysgolion. ERW ddylai fod yn arwain y gad wrth ymgysylltu â'r SAUau hyn fel y dônt yn bartneriaid rhagweithiol wrth godi cyfalaf proffesiynol sefydliadol ac unigol mewn ysgolion, drwy ddarparu cyfleoedd ymchwil, dysgu proffesiynol ac achredu (lle y bo'n briodol). Mae'r gwaith ar droed ar hyn o bryd, a dylai droi'n faes gwaith blaenoriaeth i ERW ar ei newydd wedd. Gallai'r SAUau hynny hefyd droi'n bartneriaid yn y prosesau gwerthuso a gwella ar gyfer ysgolion yn ogystal â bod yn bartneriaid dysgu proffesiynol ar gyfer y rhanbarth.

## 5.0 Strwythur Staffio

Mae'r strwythurau staffio a amlinellir isod yn darparu sail gadarn ar gyfer Gwasanaeth Gwella Ysgolion sy'n gydlynol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Diben yr holl swyddi rhanbarthol fydd sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr drwy gynllunio effeithiol ar gyfer y cwricwlwm newydd, dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth ar gyfer staff ysgolion, a hynny yng nghyd-destun system sy'n hunanwella. Bydd y rhan fwyaf o'r swyddi gwella ysgolion yn rhai lleol, gyda'r gwaith cyflwyno'n digwydd fwyfwy ar draws awdurdodau. Bydd sicrhau systemau rheoli perfformiad effeithiol yn allweddol i’r trefniant rhanbarthol.

**Staff a Gyflogir yn Rhanbarthol**

O dan arweinyddiaeth Rheolwr-gyfarwyddwr, gall cyfeiriad strategol gael ei ddarparu gan Dîm Strategol Rhanbarthol a gyflogir yn ganolog.

Dylai'r uwch dîm gynnwys 5 unigolyn i weithio gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr - dylai 3 ohonynt ddod â phrofiad o arweinyddiaeth hynod lwyddiannus, naill ail ym maes prifathrawiaeth neu uwch swyddi awdurdod lleol/gwella ysgolion rhanbarthol yn y meysydd canlynol:

- Arweinydd Addysg Gynradd (secondiad o 3 blynedd neu'n barhaol ar Soulbury)
- Arweinydd Addysg Uwchradd (secondiad o 3 blynedd neu'n barhaol ar Soulbury)
- Arweinydd Ysgolion Arbennig ac Addysg mewn Lleoliadau Amgen (swydd ran-amser, secondiad 3 blynedd neu'n barhaol ar Soulbury)

Byddant yn gallu darparu arweinyddiaeth arbenigol ar draws y rhanbarth a chefnogi prosesau’n ymwneud ag atebolrwydd, gan feithrin y system hunanwella, sicrhau cynllunio busnes rhanbarthol effeithiol, cadw trosolwg ar brosiectau, alinio dulliau gweithredu, rhyngwyneb gyda phartneriaid arwyddocaol, ymgysylltu â'r proffesiwn, a chyfrifoldebau strategol eraill y mae angen eu cadarnhau cyn cyflwyno'r model.

Yn ogystal â'r 3 arweinydd sector, dylai fod dau arweinydd arbenigol, y naill i arwain ar Ddysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth a'r llall i arwain ar Ddiwygio'r Cwricwlwm ac Arloesedd.

- **Arweinydd Dysgu Proffesiynol** gyda thîm a fydd yn cynnwys
- Pennaeth Arweinyddiaeth, cymorth ar gyfer arweinyddiaeth ac
- Arweinydd Addysg Gychwynnol Athrawon, Ymchwil Addysg a Sefydlu
- At hynny, bydd disgwyl i'r timau a amlinellir isod ar gyfer cymorth uwchradd, cymorth pwnc ac arweinwyr y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) weithio gyda'r Arweinydd Dysgu Proffesiynol i sefydlu cynnig dysgu proffesiynol llawn ar draws y rhanbarth, gan weithio gydag athrawon ac ysgolion hynod effeithiol i ategu twf y system hunanwella.

- **Arweinydd Diwygio'r Cwricwlwm ac Arloesi** (swydd barhaol Soulbury) a fydd yn goruchwylio tîm a fydd yn cynnwys tîm arbenigol Uwchradd ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad ac arweinwyr pwnc craidd a MDPh presennol a fydd yn gweithio ar draws y rhanbarth gydag ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae angen cymorth unigryw mewn 3 maes oherwydd graddfa'r newid a ragwelir i'w priod barthau, a'r angen am ymgysylltiad parhaus ar lefel genedlaethol i sicrhau'r cynnydd gorau ar gyfer y diwygiadau. Y meysydd hyn yw'r Gymraeg, dysgu digidol a lles a chynhwysiant disgyblion. Cynigir y dylid sefydlu swydd strategol ym mhob un o'r parthau hynny.

- Arweinydd y Gymraeg (swydd barhaol Soulbury)
- Arweinydd Dysgu a Systemau Digidol (swydd barhaol Soulbury)
- Arweinydd Iechyd a Lles (swydd barhaol Soulbury)

Yn ystod cyfnod y diwygio, cynigir y dylid cyflogi Rheolwr-gyfarwyddwr Cynorthwyol ar gontract o 2 flynedd, er mwyn sicrhau cyfnod trosiannol didrafferth i'r ffyrdd newydd o weithio.

Bydd y trawsweithio rhwng Diwygio'r Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol yn sylweddol, a bydd angen i'r tîm cyfan weithio'n gyfannol i ddarparu cymorth hynod effeithiol. Bydd gofyn i dimau allweddol weithio ar draws y rhanbarth i sicrhau cydblethiad o'r fath.

**Argymhellir bod ERW yn ailddiffinio gwaith ei dimau presennol wrth fynd ati gyda'r dull gweithredu newydd.**

**Arbenigwyr Pwnc Uwchradd**

Dylai ysgolion a'u hawdurdodau lleol barhau i elwa ar waith tîm Arweinwyr Dysgu Arbenigwyr Pwnc Uwchradd - sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarparu cymorth i ysgolion ym meysydd Saesneg, Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth ac ansawdd ôl-16. Gall awdurdodau lleol ofyn am weithgarwch ganddynt yn ôl yr angen a gellid datblygu'r model i ganiatáu comisiynu ychwanegol os bydd pwysau gormodol o ran capasiti. Mae

ymatebion penaethiaid ym mhob awdurdod wedi bod yn frwd ynghylch y gwerth a ychwanegir gan aelodau'r tîm presennol, ac yn y rhan fwyaf o awdurdodau ERW, y tîm sy'n darparu'r unig ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y cwricwlwm uwchradd.

**Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol nawr i ehangu tîm y cwricwlwm uwchradd rhanbarthol i rychwantu'r meysydd canlynol i gynorthwyo dysgu proffesiynol a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer 2022.**

Dyniaethau

Technoleg

Ieithoedd Tramor Modern

Y Celfyddydau Mynegiannol

Dylai hyn ddarparu cwmpas cyflawn ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm sy'n dod i'r amlwg a phob agwedd ar y modelau atebolrwydd presennol. Dylai'r tîm arbenigol uwchradd ddarparu cymorth parhaus ar draws y rhanbarth ac at hynny dylai gysylltu â CBAC, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i newidiadau i fanylebau arholiadau neu fodelau asesu yn ogystal â datblygu sgiliau arweinwyr canol o ran eu rolau wrth godi safonau. Dylai cefnogi Ymgynghorwyr Her i gynnull clystyrau priodol o ysgolion i rannu arloesedd cwricwlaidd hefyd fod yn un swyddogaeth werthfawr i'r tîm.

### Y Tîm Cymorth Uwchradd (Y grŵp o benaethiaid y cyfeirir atynt weithiau fel 'Y Tîm Ysgolion sy'n Peri Pryder’)

Ar hyn o bryd mae ERW yn defnyddio 12 arweinydd ysgol hynod brofiadol mewn ymateb i geisiadau awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder. Mae adborth cadarnhaol sylweddol am waith y tîm hwn, ac mae seiliau cadarn dros ei gynnal a thyfu'r model er mwyn gallu cynnwys mwy o arweinwyr ysgol a fydd ar gael i ddarparu cymorth dros y blynyddoedd sydd i ddod. Dylid ystyried y rhain naill ai'n secondiadau neu'n gontractau dyddiol, gan ddarparu'r hyblygrwydd i'w defnyddio yn ôl y galw. Dylid cadw swydd fwy sylweddol i gydlynu ac arwain y gwaith - ond gan weithio i'r Arweinydd Strategol dros Addysg Uwch. Ar lefel isranbarthol gellid ystyried cynnull timau tebyg i wasanaethu ar draws y sectorau Cynradd neu Arbennig, oni bai bod awdurdodau lleol am ystyried comisiynu trefniant tebyg i'r trefniant uwchradd presennol.

### Arweinwyr Dysgu'r Clwstwr : Symud tuag at arweinwyr arbenigol i’r Meysydd Dysgu a Phrofiad (meysydd y cwricwlwm newydd)

Mae pryder nad yw'r model Arweinwyr Dysgu'r Clwstwr wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac nid oes gan awdurdodau lleol nac ysgolion hyder ynddo'n gyson. Mae enghreifftiau neilltuol o waith llwyddiannus ar gael, ond ar hyn o bryd ni thybir bod hynny'n ddigon helaeth ei gwmpas i gyfiawnhau gwariant o oddeutu £2.5m y flwyddyn. Mae’r project hwn yn cael ei gynnal trwy secondiadau, a cynigir fod y secondiadau hynny, wrth iddyn nhw orffen, yn cael eu dirwyn i ben gan ERW.

Wrth symud ymlaen cynigir y dylid canolbwyntio'n hytrach ar symud tuag at fodel sy'n gallu cefnogi trosglwyddiad llawn at gwricwlwm sydd wedi'i seilio ar y 4 diben a'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad newydd. Dylid lleoli tîm ar draws rhanbarth sydd yna'n gallu gweithio mewn partneriaeth â phob awdurdod lleol i gynorthwyo datblygu, gweithredu a sianelu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Awgrymir y gall ERW symud at un o ddau fodel posib yn y maes hwn.

Opsiwn 1 ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad: Cynigir y dylid secondio neu benodi 3 pherson i bob un o'r 6 MDPh (gydag un ohonynt yn arwain a 2 y bydd angen iddynt allu gweithio mewn lleoliadau Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng). Byddai'r 18 (yn lle 56 Arweinydd Dysgu) yn golygu rhyddhau adnodd i ysgolion i'w galluogi i allu ymgysylltu'n effeithiol ar draws y 6 MDPh a datblygu dull gweithredu o'r gwreiddiau i fyny tuag at y cwricwlwm newydd. Drwy fod â 18 arbenigwr MDPh, byddai cyllid ar gael i sicrhau bod ysgolion a/neu athrawon unigol yn gallu darparu arweinyddiaeth MDPh ar lefel fwy lleol - i helpu adeiladu'r system hunanwella. Byddai'r arbenigwyr MDPh yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod rhagoriaeth yn cael ei ledu ar draws y rhanbarth cyfan, ac i helpu osgoi dyblygu gwaith.

Opsiwn 2 ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad: Yn lle apwyntio 3 arweinydd MDaPh ar gyfer pob un o'r 6 Maes (fel opsiwn 1), penodi 2 yn unig. Gellid wedyn defnyddio'r cyllid fyddai wedi ei neulltio i'r trydydd penodiad i sicrhau cyfraniad 4 neu 5 ysgol i'r gwaith, ar ddiwrnod yr wythnos o fewn pob MDaPh. Gall gwaith rhain gael ei gydlynu gan y 2 llawn amser. Gallai hyn fod o gymorth wrth sicrhau ansawdd rhainy a benodir, ond yn allweddol gall danlinellu ein hymrwymiad i'r system hunan-wella. Yn ychwanegol, gall leihau'r risg ariannol i'r rhanbarth, os bydd angen newid dull gweithio i'r dyfodol, gan hefyd wreiddio ffordd o weithio yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Os yn ystod y flwyddyn gyntaf y daw'n amlwg fod 2 unigolyn i bob Maes Dysgu a Phrofiad yn methu cynnig digon o gapasiti i'r gwaith sydd ei angen, gallwn symud at drydydd penodiad yn yr ail flwyddyn. Mae tair blynedd gyda ni o hyd nes gweithrediad llawn y cwricwlwm newydd.

Pa bynnag opsiwn a fabwysiadir, byddai'n hanfodol alinio â'r tîm Ymgynghorwyr Her er mwyn sicrhau eu gweithrediad effeithiol yn lleol, ynghyd ag alinio'u gwaith yn rhanbarthol i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei rychwantu'n llawn ar draws y rhanbarth.

### Ymgynghorwyr Her (gydag enw newydd)

Cynigir ein bod yn gweithio gyda'r tri rhanbarth arall i ail-alinio gwaith Ymgynghorwyr Her. Gellid eu hailddiffinio, ond byddai'n fuddiol bod yn rhan o newid cenedlaethol, er mwyn cynorthwyo'r Fframwaith Gwerthuso a Gwella cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.

Fel corff, maent yn hanfodol i sicrhau dulliau gweithredu effeithiol tuag at wella ysgolion. Mewn model rhanbarthol/hwb/lleol cymysg, byddent yn allweddol i sicrhau bod gan y rhanbarth yr wybodaeth ddiweddaraf am anghenion penodol ysgolion a bod cymorth priodol yn cael ei frocera neu ei gomisiynu. Felly, parheir i gyflogi Ymgynghorwyr Her yn lleol, a'u defnyddio ar draws ffiniau, gyda hyfforddiant

rhanbarthol ac arfer da'n cael ei rannu'n effeithiol ar draws y rhanbarth.   Maen nhw, ynghyd â'u Huwch Ymgynghorwyr Her, yn dod yn allweddol o ran sicrhau cysondeb a defnydd effeithiol o arbenigedd rhanbarthol, a thrwy symud tuag at ddefnydd o hybiau, gallai fod cyfle i wreiddio dulliau gweithredu rhanbarthol mwy cyson a helpu i ledu arfer effeithiol, creu perthnasau cadarnhau rhwng awdurdodau a chreu capasiti'n hwylusach gyda'r tîm Ymgynghorwyr Her.

Yn y system newydd, bydd gennym 4 math o ymarferwyr sy'n chwarae rôl allweddol ym maes gwella ysgolion, ac mae angen i'w cydweithrediad fod yn sylweddol

–

| | | |
|---|---|---|
| Uwch dîm rhanbarthol ERW | ⟺ | Yr Ymgynghorwyr Her |
| ⇳ | | ⇳ |
| Timau awdurdodau lleol | ⟺ | Timau MDPh Cynradd ac Uwchradd |

Yn yr un modd, os bydd awdurdod lleol yn adleoli staff i gefnogi gwaith gwella ysgolion, bydd eu cydweithrediad ar draws y rhanbarth yn hanfodol i sicrhau'r deilliannau mwyaf effeithiol.

**Sicrwydd Ansawdd a Chysondeb ar draws y rhanbarth**

Fel gyda'r holl arferion gwaith eraill yn y model hwn, bydd prosesau sicrwydd ansawdd cytunedig yn hanfodol.  Mae gan athrawon yr hawl i ddisgwyl cymorth cyson ar gyfer eu teithiau proffesiynol eu hunain a theithiau gwella eu hysgolion.   Mae gan ysgolion yr hawl i ddisgwyl osgoi'r gwastraff a geir drwy ddyblygu gwasanaethau ynghyd â dirprwyo cyllid i'r eithaf.

Dylai fod gan bob grŵp isranbarthol (neu hwb) dîm cytunedig o swyddogion a Phenaethiaid sy'n gwasanaethu fel grŵp monitro ar gyfer eu hisranbarth.   Ar sail gylchol, dylent fod yn gyfranogwyr wrth hunanwerthuso ac ymgymryd â gwaith adolygu cymheiriaid yn eu hawdurdodau/hybiau, gan ddarparu adborth am ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a gynigir.   At hynny, ar sail gylchol, dylai Hwb 1 agor ei hun i graffu o'r fath gan Hwb 3, Hwb 3 i graffu gan Hwb 2 a Hwb 2 gan Hwb 1 - neu drefniant tebyg, fel bod modd bwrw golwg allanol ac fel nad yw gwerthusiadau'n sbarduno tensiynau diangen rhwng Rheolwr-gyfarwyddwr ERW a'r Cyfarwyddwyr ym mhob awdurdod.   Mae ymagwedd gydsyniadol tuag at dwf yn hanfodol os yw ERW i ffynnu a dod yn hoelen wyth ar gyfer arfer gwella ysgolion effeithiol, creu capasiti a dod yn rhanbarthol sy'n le rhagorol i fod yn athro neu'n arweinydd ynddo.   Yn ychwanegol bydd angen hwyluso gweithio a monitro ar draws hybiau.   Mae angen gwereiddio cydweithio i lefel newydd os yw ERW i lewyrchu.

## 6.0 Model Atebolrwydd a Llywodraethu

Mae gan Gymru raglen uchelgeisiol i feithrin arweinwyr sy'n:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd cyflwyno agenda mor uchelgeisiol yn mynnu cydweithio mwy effeithiol ar draws y rhanbarth – rhwng ysgolion ac ysgolion, cyd-gynllunio gwasanaethau'n effeithiol ar draws awdurdodau a chydag asiantaethau allanol, a gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol ar draws awdurdodau. Dylai dull llywodraethu system o'r fath ategu athroniaeth gwella ysgolion a'r goblygiadau ehangach ar gyfer cyfrifoldebau llywodraeth leol.

Dylai Cynllun Busnes cytunedig ffurfio'r sail ar gyfer gweithgareddau ERW, ac mewn gwirionedd, Cynllun Busnes sydd wedi cael sêl bendith y cydbwyllgor fydd y ddogfen gomisiynu ar gyfer gweithgareddau yn y flwyddyn sydd i ddod. Dylid dal staff ERW a thimau awdurdodau lleol yn atebol am gyflwyno'r cynllun cytunedig ar draws y rhanbarth.

Dylai fod atebolrwydd clir ar gyfer pob haen o'r system, gyda'r haen uchaf (Cyd-bwyllgor) yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol dros y gwasanaeth rhanbarthol a'i gyllidebu a'i gynllunio, ac yn sicrhau uniondeb gwaith rhwng awdurdodau - yn y bôn, adlewyrchu rôl bresennol y Cyd-bwyllgor. Wrth lynu wrth drafodaethau blaenorol, dylid ystyried troi'r Cyd-bwyllgor yn fwy o ffocws ar gyfer gwaith aelodau cabinet dros addysg yn hytrach nag arweinwyr cynghorau. At hynny, mae'r Cyd-bwyllgor wedi treulio cryn dipyn o'i amser yn y blynyddoedd diwethaf yn trafod rhai materion gweithredol y byddai'n fwy addas eu trafod ar lefelau eraill. Ni ddylai hyn fynnu newidiadau sylweddol i'r model llywodraethu - o ran agendâu, y byddai'r effaith yn cael ei theimlo ynghyd â hyder y Cyd-bwyllgor bod materion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried yn llawn cyn dod gerbron y Cyd-bwyllgor.

Dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr newydd a'r uwch dîm weithio gyda'r Cyfarwyddwyr Addysg, drwy'r byrddau sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod cynlluniau wedi'u halinio'n effeithiol, bod hunanwerthuso gonest yn parhau a bod partneriaeth effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae eglurder ynghylch perthnasau'n hanfodol – gan gynnwys rôl glir ar gyfer y Prif Weithredwr arweiniol ar ran y gymuned Prif Weithredwyr. Dylai osgoi gwrthdaro parhaus fod yn flaenoriaeth ar unwaith i bawb dan sylw, a gallai fod o gymorth petai aelod o'r grŵp Prif Weithredwyr yn ymuno â chyfarfodydd rheolaidd y grŵp Rheolwr-gyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr yn ystod y cyfnod trosiannol ac i'r Rheolwr-gyfarwyddwr newydd adrodd yn uniongyrchol i Brif Weithredwr.

Dylai'r Rheolwr-gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwyr barhau i adrodd i'r Bwrdd Ymgynghorol a bwrdd penaethiaid, a fydd yn craffu ar y swyddogaeth gwella ysgolion, ansawdd cynlluniau ac ansawdd y gwaith a gyflwynir i ysgolion, fel sy'n ddisgwyliedig ar hyn o bryd.

**Yn ogystal â'r strwythurau llywodraethu presennol, cynigir y dylid sefydlu'r grwpiau newydd er mwyn sicrhau bod ffocws ar swyddogaethau allweddol ERW ac i gefnogi cysondeb ansawdd ar draws y rhanbarth:**

Er mwyn helpu i lywio a chefnogi gwaith gwella ysgolion dylai fod golwg clir, dwy ffordd, rhwng defnyddwyr dyddiol gwasanaethau gwella ysgolion (athrawon ac arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol) a'r rhai hynny sy'n darparu rolau arweinyddiaeth strategol yn y themâu allweddol a fydd yn creu cylch gwaith ERW ar ei newydd wedd. Gallai hyn weithio ar ddwy lefel wahanol - yn ogystal â'u cyfraniad presennol drwy grŵp ymgynghorol penaethiaid ERW a'r Bwrdd Gweithredol.

Cynigir 2 lefel weithredol o lywodraethu proffesiynol/partneriaeth, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau dulliau cyflwyno effeithiol a gostwng lefelau gwrthdaro:

**Grŵp 1 – Cefnogi'r Arbenigwyr Strategol**

Cynigir bod y rhai hynny sy'n arwain ar y themâu strategol rhanbarthol yn cael Grŵp Cymorth Gweithredol o 6 pherson yr un, sy'n cynnwys 3 athro (2 bennaeth ac athro arbenigol), 2 Uwch Ymgynghorydd Her (neu brofiadol iawn) ac 1 Cyfarwyddwr Addysg/Prif Swyddog. Dylai'r grwpiau hyn weithio ochr yn ochr ag arweinwyr ERW ym meysydd y cwricwlwm newydd, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth, y Gymraeg, Lles a Chynhwysiant a Dysgu Ddigidol er mwyn llunio'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol a gwybodus tuag at feysydd gwaith thematig allweddol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith ar lefelau rhanbarthol, isranbarthol/lleol ac ar lefel ysgol yn barhaus. Ar gyfer y rhai hynny sy'n cael eu rhyddhau o'r ysgol, dylid neilltuo un neu ddau ddiwrnod fesul hanner tymor i gyllidebau eu hysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at y ddeialog a'r broses gynllunio.

**Grŵp 2 – Sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws y rhanbarth**

Cynigir y dylid sefydlu grŵp Swyddogion a Phenaethiaid ble bynnag y sefydlir gweithgarwch isranbarthol. Dylai penaethiaid o'r bartneriaeth isranbarthol honno ffurfio rhan o fwrdd isranbarthol sy'n gallu helpu i adnabod gofynion comisiynu, cefnogi prosesau sicrwydd ansawdd o amgylch cymorth i ysgolion a'r cynnig DP/Arweinyddiaeth, dal ALlau i gyfrif, ffocysu ar osgoi'r gwastraff a geir drwy ddyblygu gwasanaethau a gwthio i sicrhau cysondeb cymorth ar draws y rhanbarth, a helpu i gynhyrchu'r diwylliant o ymddiriedaeth sydd ei angen er mwyn gwreiddio'r system hunanwella. Gallent hefyd gynorthwyo gyda'r gwaith adolygu cymheiriaid mewn hybiau ar draws y rhanbarth, a ddylai fod yn rhan hanfodol o waith Sicrwydd Ansawdd a Gwerth am Arian y bartneriaeth ranbarthol, yn unol â'r model adolygu hybiau a nodwyd yn flaenorol.

## 7.0 Model Ariannol

Nid yw'r model ariannol presennol yn gweithio ac mae'n peri tensiynau parhaus. Felly, mae angen rhoi model ariannol yn ei le sy'n gallu darparu gwasanaeth canolog sicr ac annog pobl ragorol i ymrwymo i ERW, galluogi i grantiau gael eu dirprwyo a darparu lefelau uwch o gyllid i gyrraedd ysgolion fel ein prif bartneriaid.

Derbynnir cyllid gwerth mwy na £70m y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i'w ddosbarthu gan ERW – a chaiff y mwyafrif helaeth ohono ei ddirprwyo i ysgolion ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ariannol bresennol, arweiniodd ystod y gweithgareddau a gefnogwyd gan ERW - gan gynnwys y rhwydwaith Arweinwyr Dysgu helaeth - at wario oddeutu £4.7m ar staffio yn y rhanbarth (yn gweithio'n bennaf ar lefel leol ar draws clystyrau o ysgolion).

Mae'r modelu ariannol ar gyfer argymhellion ERW ar ei newydd wedd yn dangos y gallai gyflawni ei rwymedigaethau cytunedig gydag oddeutu £1.3m yn fwy ar gael i'w ddirprwyo trwy ERW i ysgolion/awdurdodau lleol i gyflawni nodau'r grantiau.

Er y gallai'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer rôl ERW yn y dyfodol sicrhau cymorth yr awdurdodau partner ac alinio'n dda gyda blaenoriaethau cenedlaethol (ac felly gyda ffrydiau grant tebygol), mae angen cydbwyso'r ddibyniaeth bresennol (sydd bron yn ddibyniaeth lwyr) ar gyllid grant yn erbyn yr angen am sicrwydd a chynaliadwyedd ar gyfer y sefydliad.

O ystyried y gellid cyflawni'r model gweithredol diwygiedig tra hefyd yn sicrhau arbedion o oddeutu £1.3m oddi ar y gwariant presennol, cynigir y dylai uwch swyddogion cyllid o'r 6 awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd ym mis Ionawr i gytuno ar fodel ategol dichonol i sicrhau bod ERW yn gallu cadw ei ran yn y fargen yn y bartneriaeth leol/ranbarthol - a hynny ar sail cyfraniadau tryloyw a chytbwys y gellir eu harchwilio rhwng cyllid craidd a chyllid grant, ac eglurder yn y dosbarthiad grant drwy bob awdurdod lleol i sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

**29/1/2019**